PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

AMODAU SAFONOL CONTRACT AR GYFER PRYNU NWYDDAU A/NEU WASANAETHAU

1. **DIFFINIADAU**

(i) Yn yr amodau hyn:

Ystyr 'Amodau' yw'r telerau a'r amodau safonol hyn ar gyfer prynu ac mae'n cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig y cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig rhwng y partïon i'r Contract hwn, er enghraifft, ymhlith pethau eraill, unrhyw delerau ac amodau penodol a osodir gan Swyddfa Ystadau'r Brifysgol;

Ystyr 'Archeb Brynu' yw ein harcheb brynu sy'n cyfeirio at yr Amodau hyn;

Ystyr 'Cais am Wybodaeth' fydd yr ystyr a roddwyd i '*Request for Information*' yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bydd yn cynnwys unrhyw gais eglur am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a/neu'r Rheoliadau a/neu'r Codau Ymarfer;

Ystyr 'Codau Ymarfer' yw Cod Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gyhoeddwyd o dan adran 45 a/neu adran 46 o'r Ddeddf honno a/neu unrhyw god a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno a fo'n berthnasol o bryd i'w gilydd i'r modd y mae'r Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Ddeddf honno;

Ystyr "Comisiynydd Gwybodaeth" ac ystyr "Tribiwnlys Gwybodaeth" yw'r ystyron a roddwyd i "*Information Commissioner*" ac "*Information Tribunal*" o dan adran 6 o'r Ddeddf Diogelu Data;

Ystyr 'Contract' yw'r contract ar gyfer gwerthu a phrynu Nwyddau a/neu ar gyfer cyflenwi a derbyn Gwasanaethau;

Mae 'Chi' ac 'Eich' yn cyfeirio at y person, y busnes neu'r cwmni y mae'r Archeb Brynu yn cyfeirio ato ac mae'n cynnwys ei gyflogeion, ei isgontractwyr a'i asiantau.

Ystyr 'Diwygiad i'r Archeb' yw newid i'r Archeb Brynu;

Ystyr 'y Ddeddf Diogelu Data' yw Deddf Diogelu Data 1998 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd o tani o bryd i'w gilydd;

Ystyr 'y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth' yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd o tani o bryd i'w gilydd;

Ystyr "Gwasanaethau" yw'r gwaith a'r gwasanaethau a ddisgrifir yn yr Archeb Brynu ac mae'n cynnwys unrhyw Feddalwedd;

Ystyr 'Gwybodaeth' yw'r ystyr a roddwyd i '*Information*' o dan adran 84 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

Ystyr 'Gwybodaeth Gyfrinachol' yw gwybodaeth (ar ba ffurf bynnag neu ym mha gyfrwng bynnag y bo, a boed wedi'i datgelu ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghyd â phob copi ohoni ar ba ffurf bynnag neu ym mha gyfrwng bynnag y bo ac unrhyw ran neu rannau ohoni), pes datgelid heb awdurdod, a fyddai'n cael ei chyfrif yn achos cyfreithadwy o dorri cyfrinachedd, neu sydd naill ai wedi'i dynodi'n gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall yn ysgrifenedig, neu y dylid ei rhesymol ystyried yn gyfrinachol gan gynnwys heb gyfyngiad gwybodaeth fasnachol-sensitif, gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, nwyddau, gwasanaethau, datblygiadau, cyfrinachau

masnach, hawliau eiddo deallusol, gwybodaeth ymarferol, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti a'r llall, a'r holl ddata personol a data personol sensitif sy'n dod o fewn yr ystyr yn y Ddeddf Diogelu Data;

Mae 'Manyleb' yn cynnwys unrhyw luniau, cynlluniau, data neu wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau;

Ystyr "Meddalwedd" yw'r holl feddalwedd sy'n wedi'i chynnwys yn y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, neu sy'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, yn unol â'r hyn a ragwelwyd gan yr Archeb Brynu;

Mae 'Ni' ac 'Ein' yn cyfeirio at Brifysgol Aberystwyth;

Ystyr 'Nwyddau' yw'r cynhyrchion, y deunyddiau a'r eitemau, a ddisgrifir yn yr Archeb Brynu ac mae'n cynnwys unrhyw Feddalwedd;

Ystyr 'Pris' yw cydnabyddiaeth ariannol am y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau;

Ystyr 'y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol' yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;

(ii) Er hwylustod yn unig y rhoddir y penawdau yn yr Amodau hyn ac ni fydd yn effeithio ar eu dehongliad.

2. **SAIL Y PRYNU**

(i) Mae'r Archeb Brynu yn ffurfio cynnig gennym ni i brynu'r Nwyddau a/neu gael y Gwasanaethau sy'n ddarostyngedig i'r Amodau hyn.

(ii) Yr Amodau hyn fydd yn gymwys i'r Contract, gan ddiystyru unrhyw delerau neu amodau neu ymliwiadau eraill y byddoch yn ceisio dibynnu arnynt. Mae unrhyw deler neu amod neu ymliwiad ar eich cydnabyddiaethau archeb, eich nodiadau dosbarthu, eich anfonebau neu unrhyw ddogfennaeth safonol arall o'ch eiddo yn cael eu diystyru oni bai y cytunwyd iddynt yn ddatganedig, yn ysgrifenedig, gennych chi a gennym ni.

(iii) Yn ddarostyngedig i amod 2(ii) bernir bod yr Archeb Brynu yn cael ei derbyn yn ddiamod gennych chi os nad ydym yn cael gwrthgynnig manwl o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr archeb.

(iv) Yn ddarostyngedig i amod 2(ii) bydd dosbarthu'r Nwyddau neu ddarparu'r Gwasanaethau mewn ymateb i'r Archeb Brynu neu Ddiwygiad i'r Archeb yn cyfrif yn brawf bod yr Amodau hyn wedi'u hymgorffori yn y Contract.

(v) Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Archeb Brynu na'r Amodau hyn yn rhwymol oni chytunir arno'n ysgrifenedig gennych chi a gennym ni.

3. **MANYLEBAU**

(i) Bydd maint, ansawdd, perfformiad a disgrifiad y Nwyddau a'r Gwasanaethau, heblaw y darperir amdanynt fel arall yn yr Amodau hyn, yn unol â'r hyn a fanylir yn yr Archeb Brynu a/neu mewn unrhyw Fanyleb gymwys a gyflenwir gennym i chi neu y cytunwyd arni'n ysgrifenedig gennym ni.

(ii) Bydd unrhyw Fanyleb a gyflenwir gennym i chi, neu a gynhyrchir yn benodol gennych chi ar ein cyfer ni, mewn cysylltiad â'r Contract, ynghyd â'r holl hawlfraint, hawliau dylunio neu unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill yn y Fanyleb, yn eiddo i ni yn unig. Ni fyddwch yn datgelu i'r un trydydd parti nac yn defnyddio unrhyw Fanyleb o'r fath ac eithrio yn unol â'r hyn a ganiateir gan Amod 31.

(iii) Byddwch yn cydymffurfio â'r holl reoliadau a/neu ofynion cyfreithiol perthnasol eraill sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu, pecynnu, pacio, dosbarthu a dadlwytho'r Nwyddau a/neu gyflawni'r Gwasanaethau.

(iv) Ar eich traul chi, byddwch yn darparu unrhyw raglenni gweithgynhyrchu a dosbarthu y mae'n rhesymol i ni ei gwneud yn ofynnol i chi eu darparu. Byddwch yn rhoi gwybod i ni'n ddi-oed yn ysgrifenedig os byddwch ar ei hôl hi, neu os gallech fod ar ei hôl hi, o ran eich cynnydd tuag at unrhyw raglen o'r fath.

(v) Ni fyddwch yn gwrthod yn afresymol unrhyw gais a wnaed gennym i archwilio a phrofi'r Nwyddau wrth iddynt gael eu gweithgynhyrchu, eu prosesu neu eu storio yn eich safle neu yn safle unrhyw drydydd parti perthnasol cyn iddynt gael eu hanfon, a byddwch yn darparu i ni'r holl gyfleusterau y bydd eu hangen yn rhesymol er mwyn eu harchwilio a'u profi.

(vi) Os nad ydym wedi ein bodloni bod y Nwyddau'n cydymffurfio â phob agwedd ar y Contract, o ganlyniad i archwiliadau neu brofion, ac os ydym yn eich hysbysu ymhen 10 diwrnod o'r archwiliad neu'r profion, byddwch yn cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Contract.

(vii) Ni fydd unrhyw archwilio na phrofi a wneir gennym ni yn eich rhyddhau o'ch rhwymedigaethau o dan y Contract hwn.

(viii) Bydd y Nwyddau'n newydd oni nodir fel arall ar yr Archeb Brynu a byddant wedi'u gwneud o ddeunyddiau o safon â chrefftwaith medrus a gofalus.

4. MEINTIAU A GWERTHOEDD BUSNES

Bydd unrhyw amcangyfrifon ysgrifenedig neu ar lafar o feintiau neu werthoedd posib y busnes a allai gael ei gyflawni o dan y Contract hwn, ond sydd heb eu gwarantu'n ddatganiedig yn rhan o Archeb Brynu, yn cael eu rhoi at ddibenion arweiniad yn unig ac ni fyddant yn rhwymol er y byddwn yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu gwybodaeth berthnasol am yr amcangyfrif.

5. PRIS

(i) Byddwch yn gwerthu'r Nwyddau i ni neu'n darparu'r Gwasanaethau am y Pris pendant a nodir yn y Contract. Os na nodir Pris yn y Contract, bydd yn bris cystadleuol, gan ystyried sefyllfa'r farchnad ar y pryd.

(ii) Bydd y Pris yn cynnwys yr holl gostau am storio, pecynnu, morgludo, cludo, yswiriant, dosbarthu'r Nwyddau i'r cyfeiriad dosbarthu, dadlwytho, gosod a chomisiynu (os yw'n berthnasol) ac unrhyw dollau, trethi neu ardollau ac eithrio treth ar werth.

(iii) Ni ellir cynyddu'r Pris, boed hynny ar gyfrif costau uwch o ran deunyddiau, llafur neu drafnidiaeth, newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid na dim byd arall ar ôl i'n Harcheb Brynu gael ei chyflwyno heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

(iv) Bydd gennym yr hawl i unrhyw ostyngiad am daliad prydlon neu swmp-brynu a roddwch fel arfer.

6. DOSBARTHU

(i) Bydd y Nwyddau'n cael eu dosbarthu i'r cyfeiriad dosbarthu, a bydd y Gwasanaethau yn cael eu darparu ynddo, ar y dyddiad neu o fewn y cyfnod a nodir yn yr Archeb Brynu, ac yn y naill achos neu'r llall yn ystod ein horiau busnes arferol.

(ii) Bydd y Nwyddau'n cael eu marcio yn unol â'n cyfarwyddiadau, a byddant yn cael eu pacio, eu diogelu a'u hanfon yn briodol ar eich traul er mwyn cyrraedd mewn cyflwr da ar yr adeg ac yn y lle a bennir yn y Contract.

(iii) Os ydych chi neu'ch cludwr yn dosbarthu unrhyw Nwyddau ar yr adeg anghywir neu i'r lle anghywir, fe gawn dynnu o'r Pris unrhyw gostau sy'n dod i'n rhan ni oherwydd hynny, ar gyfer yswiriant dros dro, eu storio neu eu cludo. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled na difrod i Nwyddau a ddosbarthir yn anghywir.

(iv) Bydd gennym yr hawl i wrthod unrhyw Nwyddau nad ydynt yn unol â'r Contract, ac ni fernir ein bod wedi derbyn unrhyw Nwyddau nes ein bod wedi cael amser rhesymol i'w harchwilio ar ôl iddynt gael eu dosbarthu neu, os yw'n ddiweddarach, o fewn amser rhesymol ar ôl i unrhyw ddiffyg cudd yn y nwyddau ddod i'r amlwg. Byddwn yn rhoi cyfle rhesymol i chi ddarparu Nwyddau newydd sy'n cydymffurfio â'r Contract hwn yn lle'r Nwyddau hynny, ac ar ôl yr amser hwnnw bydd gennym yr hawl i ganslo'r Archeb Brynu a phrynu'r Nwyddau cyfatebol agosaf o rywle arall. Os bydd y Contract yn cael ei ganslo o dan yr Amod hwn, byddwch yn ad-dalu'n ddi-oed unrhyw arian a dalwyd o dan y Contract heb unrhyw feintiau'n cael eu cadw nac unrhyw wrthbwyso. Ni fydd canslo'r Archeb Brynu o dan yr Amod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill a fo gennym. Rhaid i chi gasglu'r holl Nwyddau a wrthodwyd o fewn amser rhesymol ar ôl iddynt gael eu gwrthod, fel arall byddwn yn eu dychwelyd atoch ar eich risg a'ch cost chi.

(v) Gall unrhyw Nwyddau a gyflenwir uwchben yr hyn a nodir yn yr Archeb Brynu gael eu gwrthod a'u dychwelyd ar eich risg a'ch cost chi.

(vi) Bydd amser yn hanfod i'r Contract os cytunir felly yn ysgrifenedig neu os byddwn ni drwy roi hysbysiad ysgrifenedig yn ei wneud felly, y bydd gennym yr hawl i'w wneud os byddwch yn fwy na 7 diwrnod yn hwyr wrth ddosbarthu Nwyddau a/neu gyflawni'r Gwasanaethau.

7. PECYNNAU

Oni nodir yn wahanol yn y Contract, ni fydd yn rhaid i ni ddychwelyd unrhyw ddeunyddiau pecynnu neu bacio ar gyfer y Nwyddau atoch. Os gwneir unrhyw gytundeb ysgrifenedig penodol i'r deunydd pecynnu gael ei ddychwelyd gennym ni ar ôl i'r Nwyddau gael eu dosbarthu, rhaid i chi roi cyfarwyddiadau llawn i ni ar gyfer ei waredu cyn yr amser dosbarthu, rhaid i'r deunydd pecynnu gael ei farcio'n glir i ddangos eiddo i bwy ydyw a chi fydd yn gyfrifol am yr holl gostau dychwelyd. Ni fyddwn ni'n atebol am unrhyw ddeunydd pecynnu a gollir neu a ddifrodwyd wrth ei gludo.

8. TALU

(i) Bydd gennych yr hawl i'n hanfonebu am y Pris ar yr adeg pan fydd y Nwyddau'n cael eu dosbarthu'n gywir neu'r Gwasanaethau yn cael eu cyflawni'n gywir neu ar unrhyw adeg wedi hynny.

(ii) Yn ddarostyngedig i'r Amodau hyn, gan gynnwys heb gyfyngiad 6, 9, 10, 13 a 23, byddwn yn talu i chi 30 diwrnod ar ôl y dyddiad pan fo'r anfoneb am y Pris yn cael ei chyflwyno. Rhaid cyfeirio eich anfoneb i'r adran a nodir ar yr Archeb Brynu a rhaid iddi ddyfynnu rhif llawn yr archeb brynu. Bydd TAW, lle bo'n berthnasol, yn cael ei dangos ar wahân ar bob anfoneb ar y gyfradd berthnasol ar y pwynt treth. Ni fyddwn yn cael ein dal yn gyfrifol am oedi wrth dalu a achosir gan unrhyw fethiant gennych chi o ran cydymffurfio â'n cyfarwyddiadau anfonebu.

(iii) Bydd gennym yr hawl i osod yn erbyn y Pris unrhyw symiau dyledus a fo arnoch chi i ni.

9. CYFLWYNI'N HWYR

(i) Os nad yw'r Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt yn cael eu dosbarthu neu os nad yw'r Gwasanaethau yn cael eu cyflawni erbyn yr amser neu'r amseroedd a bennir yn y Contract, gallwn drwy hysbysiad ysgrifenedig ganslo ar unwaith unrhyw weddill o'r Nwyddau sydd heb ei ddosbarthu, a threfnu i unrhyw Wasanaethau sy'n weddill gael eu cyflawni drwy ddulliau eraill, a bydd unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio'n rhesymol o hynny yn cael eu codi arnoch chi. Gallwn hefyd ddychwelyd am gredyd llawn ac ar eich traul chi unrhyw Nwyddau na ellir eu defnyddio yn ein barn resymol ni oherwydd y canslo hwnnw.

(ii) Heb leihau effaith unrhyw hawl neu rwymedi arall, os na ellir, yn ein barn resymol ni, ddefnyddio unrhyw Nwyddau a ddosbarthwyd neu Wasanaethau a gyflawnwyd o ganlyniad i'ch cyflawniad hwyr, byddwn yn cael terfynu'r Contract yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol ac ni fydd gennych hawl i gael taliad yn iawndal, ac eithrio cydnabyddiaeth briodol am y Nwyddau a'r Gwasanaethau hynny y mae modd i ni eu defnyddio ac sy'n cyd-fynd â'r Contract.

10. TERFYNU'R CONTRACT

(i) Bydd gennym yr hawl i ganslo'r Archeb Brynu o ran y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, yn eu cyfanrwydd neu ran ohonynt yn unig, a hynny heb gosb drwy roi rhybudd i chi ar unrhyw adeg cyn eu dosbarthu neu cyn iddynt gael eu cyflawni, oni bai bod y cyfryw Nwyddau wedi'u cynhyrchu'n arbennig neu fod y Gwasanaethau wedi'u cyflawni'n rhannol yn unol â'n gofynion ac mewn achos o'r fath, ein hunig atebolrwydd fydd talu pris y Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau yr ydym wedi arddel ein hawliau canslo ar eu cyfer, wedi tynnu'r arbediad net i'ch costau chi sy'n deillio o'r canslo.

(ii) Heb leihau effaith unrhyw hawl neu rwymedi arall, bydd gennym yr hawl i derfynu Archeb Brynu a/neu'r Contract ar unwaith drwy roi hysbysiad i chi ar unrhyw adeg os bydd unrhyw un neu fwy o'r rhai canlynol yn digwydd:

(a) rydych yn gwneud unrhyw drefniant gwirfoddol â'ch credydwyr neu (yn achos unigolyn neu fusnes yn mynd yn fethdalwr neu (yn achos cwmni) yn gwneud cais am orchymyn gweinyddu neu ddiddymiad neu'n mynd yn ddarostyngedig i orchymyn neu ddiddymiad o'r fath **(**ac eithrio at ddibenion adlunio neu gyfuno solfent),

(b) mae llyffetheiriwr yn cymryd meddiant ar unrhyw rai o'ch eiddo neu'ch asedau, neu penodir derbynnydd ar eu cyfer,

(c) rydych yn peidio â pharhau â'r busnes, neu'n bygwth peidio â pharhau ag ef,

(d) rydym yn rhesymol ddisgwyl y gall unrhyw ddigwyddiad a grybwyllir uchod fod ar fin digwydd o'ch rhan chi ac yn rhoi gwybod i chi yn unol â hynny,

(e) rydych chi'n torri'r Contract mewn modd na ellir ei unioni, os oes modd ei unioni, nad ydych yn ei unioni ar ôl i chi gael hysbysiad gennym ni yn manylu ar ba fodd y torrwyd y Contract ac yn rhoi i chi gyfnod rhesymol (heb fod yn fwy na 28 diwrnod) i chi ei unioni.

(iii) Os yw'r Contract ar ffurf cytundeb fframwaith, bydd modd ei derfynu ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y cytundeb drwy'r naill barti yn rhoi i'r llall rybudd ysgrifenedig, a hynny heb fod yn llai na'r cyfnod rhybudd byrraf priodol sy'n gymwys yn ôl y fframwaith**.**

(iv) Rydych yn cytuno, os caiff y Contract ei ganslo neu'i derfynu, i'n helpu i drosglwyddo'r Contract i berson arall a hysbyswyd gennym ni ac, mewn achos lle y'i terfynir yn ôl amod 10(ii), heb unrhyw gost i ni.

(v) Os bydd y Contract yn cael ei ganslo neu'i derfynu, os bydd hynny'n arwain at drosglwyddo cyflogeion yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981, i chi neu oddi wrthych

chi i drydydd barti, byddwch yn ein hindemnio yn erbyn unrhyw gostau sy'n deillio o drosglwyddiad o'r fath.

11. AMRYWIADAU

Bydd gennym yr hawl, cyn y dosbarthu, i anfon Diwygiad i'r Archeb atoch yn ychwanegu at yr Archeb Brynu, neu'n ei dileu neu'i newid. Os bydd y Diwygiad i'r Archeb yn achosi i'r Pris neu'r dyddiad dosbarthu newid, byddwch yn atal gwaith cyflawni'r Contract am y tro ac yn ein hysbysu heb oedi amhriodol am y Pris a'r dyddiad dosbarthu newydd. Byddwch yn rhoi i ni gyfnod rhesymol o amser er mwyn i ni allu ystyried unrhyw Bris a dyddiad dosbarthu newydd. Dim ond os byddwn yn derbyn yn ysgrifenedig y Pris a'r dyddiad dosbarthu newydd, o fewn yr amser a bennir gennych, y bydd y diwygiad i'r archeb yn dod i rym. Os gwrthodwn y pris diwygiedig neu'r dyddiad dosbarthu diwygiedig, bydd gennym yr hawl i naill ai cadarnhau y bydd gwaith cyflawni'r Contract yn ailddechrau ar unwaith fel pe na bai'r Diwygiad i'r Archeb dan sylw wedi'i gyflwyno, neu ganslo'r Archeb Brynu a bydd darpariaethau Amod 10 yn gymwys.

12. EIDDO A RISG MEWN NWYDDAU

(i) Byddwch yn ysgwyddo pob risg o ran colled neu ddifrod i'r Nwyddau a'r Gwasanaethau nes bod y Nwyddau wedi'u dosbarthu'n iawn a'u dadlwytho, neu nes bod y Gwasanaethau wedi'u cyflawni, yn y lle dynodedig a byddwch yn yswirio yn unol â hynny.

(ii) Trosglwyddir y berchnogaeth ar y Nwyddau i ni pan fyddant wedi'u meddiannu yn unol â'r Contract a throsglwyddir y berchnogaeth ar y Gwasanaethau i ni ar ôl i'r gwaith cyflawni gael ei gwblhau.

13. GWARANTAU AC ATEBOLRWYDD

(i) Rydych yn gwarantu y bydd y Nwyddau, a/neu'r Gwasanaethau:

(a) yn foddhaol eu hansawdd ac yn addas at eu diben arferol ac unrhyw ddiben arall a gynigir gennych chi neu a wnaed yn hysbys i chi yn ysgrifenedig ar yr adeg pan gyflwynir yr Archeb Brynu, neu cyn hynny;

(b) yn rhydd o ddiffygion o ran dylunio, deunyddiau a chrefftwaith ac eithrio diffygion a achosir drwy gydymffurfio â'n Manyleb;

(c) yn cyfateb i unrhyw Fanyleb neu sampl berthnasol;

(d) yn cael eu diogelu gan gyfnod gwarant a fydd yn para am o leiaf 12 mis calendr ar ôl eu dosbarthu i ni, neu am gyfnod a fydd yn para am o leiaf 12 mis calendr ar ôl eu comisiynu lle mae'r Contract yn darparu nad yw'r Nwyddau i gael eu gosod, eu comisiynu, eu profi a'u trosglwyddo yn syth ar ôl eu dosbarthu. Os cyhoeddir tystysgrif dderbyn, y dyddiad a nodir ar y dystysgrif dderbyn honno fydd dyddiad dechrau'r cyfnod gwarant. Chi fydd yn gyfrifol am wneud iawn yn gyflym ac ar eich traul eich hun am unrhyw ddiffyg neu ddifrod i unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau. Bydd camau adferol o'r fath yn cael eu cymryd ar ein safle ni oni chytunir yn ysgrifenedig fel arall.

(ii) Rydych yn gwarantu y bydd y Gwasanaethau'n cael eu cyflawni gan bersonél sydd wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol, ac sydd wedi cael y cymwysterau priodol, gyda'r gofal a'r diwydrwydd dyladwy ac i safon ansawdd mor uchel ag y mae'n rhesymol i ni ei disgwyl o dan yr holl amgylchiadau.

(iii) Heb leihau effaith unrhyw hawl neu rwymedi arall, os na chaiff unrhyw Nwyddau neu Wasanaethau eu cyflenwi neu os nad ydynt yn perfformio yn unol â'r Contract, bydd gennym yr hawl:

(a) i fynnu'ch bod yn atgyweirio'r Nwyddau neu wneud iawn am y Gwasanaethau a/neu gyflenwi Nwyddau neu Wasanaethau newydd yn unol â'r Contract o fewn [14] diwrnod; neu

(b) yn unol â'n penderfyniad ni yn unig, ac ni waeth a ydym eisoes wedi mynnu'ch bod yn atgyweirio'r Nwyddau neu gyflenwi unrhyw Nwyddau neu Wasanaethau newydd ai peidio, i drin y Contract fel petai wedi'i ollwng drwy'ch torcontract chi ac i fynnu bod unrhyw ran o'r Pris a dalwyd yn cael ei had-dalu.

(iv) Bydd y warant yn yr Amod hwn yn cwmpasu gwaith atgyweirio neu adnewyddu am gyfnod o 12 mis ar ôl i ni dderbyn y gwaith atgyweirio neu adnewyddu.

14. INDEMNIO AC YSWIRIANT

(i) Yn ddarostyngedig i amod 14(ii) byddwch yn ein hindemnio yn erbyn yr holl atebolrwydd, colled, difrod, costau a threuliau (gan gynnwys treuliau cyfreithiol) a ddyfarnwyd yn ein herbyn neu a ysgwyddwyd neu a dalwyd gennym o ganlyniad i unrhyw un neu fwy o'r rhai canlynol, sef:

(a) torri unrhyw warant o ran y Nwyddau neu'r Gwasanaethau

(b) torri'r Contract gennych chi neu'ch cyflogeion, eich asiantau neu'ch isgontractwyr

(c) atebolrwydd o dan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987 o ran Nwyddau,

(d) unrhyw weithred neu anwaith gennych chi neu'ch cyflogeion, eich asiantau, neu'ch isgontractwyr wrth gyflenwi, darparu, dadlwytho a gosod y Nwyddau, a/neu

(e) mewn cysylltiad â chyflawni'r Gwasanaethau

(f) unrhyw anwaith neu weithred gamweddus gennych chi neu'ch cyflogeion, eich asiantau neu'ch isgontractwyr o ran y Contract.

(ii) Ni fydd y naill barti na'i gilydd (y parti cyntaf) yn atebol i'r llall am unrhyw golled economaidd neu golled anuniongyrchol a ddioddefir gan y llall hwnnw sy'n codi o ganlyniad i unrhyw dorcontract a/neu anwaith neu weithred gamweddus gan y parti cyntaf, ei gyflogeion, ei asiantau neu ei isgontractwyr sy'n codi mewn cysylltiad â'r Contract.

(iii) Ni fydd dim byd yn yr amod hwn yn eithrio unrhyw atebolrwydd sydd gan barti yn y gyfraith gyffredin neu drwy statud o ran anaf personol neu farwolaeth sy'n digwydd i unrhyw berson nad yw'n eithriadwy neu o ran unrhyw eiddo a gollwyd neu a ddinistriwyd neu ddifrod i eiddo sy'n perthyn i'r parti arall.

(iv) Byddwch yn yswirio gydag yswiriwr ac iddo enw da i ddiogelu'ch rhwymedigaethau i ni drwy gydol cyfnod y Contract hwn, gan gynnwys heb gyfyngiad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant am gynnyrch am o leiaf £5M (Pum Miliwn o Bunnoedd Sterling). Bydd tystiolaeth foddhaol o yswiriant o'r fath ac o daliadau premiymau cyfredol yn cael ei dangos i ni ar gais.

15. GWAITH AR EIN SAFLE

Os yw'r Contract yn cynnwys unrhyw Wasanaethau ar ein safle, byddwch yn sicrhau eich bod chi a'ch cyflogeion, eich asiantau a'ch isgontractwyr yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r rhwymedigaethau a osodir arnoch gan y ddeddfwriaeth ddiogelwch gyfredol ac yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad rhesymol y byddwn yn rhoi gwybod i chi amdano'n ysgrifenedig.

16. ORIAU GWAITH

Byddwn yn cael pennu'r cyfnod y byddwch yn cyflawni eich gweithrediadau yn ein safle o'i fewn, a bydd y Gwasanaethau'n cael eu cyflawni yn y fath fodd fel y byddant yn amharu cyn lleied â phosib ar waith y Brifysgol.

17. EIN POLISI DIOGELWCH

Os ydym yn ei gwneud yn ofynnol yn ysgrifenedig, byddwch yn darparu'r wybodaeth ganlynol ar unrhyw adeg cyn y penderfyniad i ddyfarnu'r contract, neu yn ystod y Contract, sef eich Polisi Diogelwch, eich Cynlluniau Diogelwch, Diogelwch Tân, Asesiadau Risg, Ystadegau Damweiniau am y 5 mlynedd diwethaf, dogfennau yswiriant dilys, unrhyw Hysbysiad Gwella/Gwahardd a gafwyd, ac unrhyw erlyniad neu erlyniad sydd yn yr arfaeth o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Byddwch yn cadw at holl ofynion cyfreithiol perthnasol y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a chytundebau rhyngwladol o safbwynt iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, ac yn benodol o safbwynt marcio Nwyddau peryglus, darparu taflenni data ar gyfer Nwyddau peryglus, ac unrhyw ddarpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â bwyd. Rhaid marcio Nwyddau Peryglus yn glir gan ddangos enw'r deunydd yn Saesneg. Rhaid i ddogfennau cludiant ac eraill gynnwys datganiad o berygl ac enw'r deunydd yn Saesneg a rhaid cynnwys gwybodaeth argyfwng yn Saesneg gyda'r Nwyddau.

18. POLISI AMGYLCHEDDOL

Ar ein cais byddwch yn darparu manylion am unrhyw bolisi amgylcheddol presennol neu arfaethedig sy'n ymwneud â'r deunyddiau crai a ddefnyddir, y dulliau cynhyrchu a'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau gorffenedig. Rydym yn cadw'r hawl yn ôl ein disgresiwn ni yn unig i gymhwyso ffactorau cynaliadwyedd ac amgylcheddol mewn unrhyw benderfyniad ynghylch dyfarnu Contract.

19. EITEMAU AR FENTHYG A DEFNYDDIO GWYBODAETH

Bydd yr holl offer, deunyddiau, lluniadau, Manylebau a chyfarpar a data eraill ('Yr Eitemau') a fenthyciwyd gennym i chi mewn cysylltiad â'r Contract yn parhau i fod yn eiddo i ni ac yn cael eu hildio i ni, ar ein cais, mewn cyflwr da a defnyddiadwy (gan ganiatáu traul deg o'u defnyddio) ac maent i'w defnyddio gennych at ddiben cwblhau'r Contract yn unig. Cytunwch na fydd copi o unrhyw un o'r Eitemau yn cael ei wneud heb ganiatâd yn ysgrifenedig gan ein Swyddog Awdurdodedig. Hyd nes y byddwch yn dychwelyd yr holl Eitemau atom byddant ar eich risg chi ac wedi'u hyswirio gennych ar eich traul eich hun yn erbyn risg o golled, lladrad neu ddifrod. Byddwch yn gwneud iawn am unrhyw golled neu ddifrod i Eitemau o'r fath ar eich cost chi, gan gynnwys, os collir allweddi eiddo, neu gardiau mynediad drws cyfrifiadurol, y costau angenrheidiol i adfer diogelwch yr adeiladau i'r safon wreiddiol. Rhaid i unrhyw sgrap sy'n deillio o gyflenwi Eitemau o'r fath gael ei waredu yn unol â'n gofynion, ac mae'n rhaid talu unrhyw elw o werthu sgrap o'r fath yn ddi-oed i ni yn llawn.

20. PERCHNOGAETH Y CANLYNIADAU

Os yw'r Contract yn cynnwys gwaith dylunio a/neu ddatblygu:

(i) Bydd yr holl hawliau yng nghanlyniadau gwaith sy'n codi o'r Contract hwn neu'n deillio o'r Contract hwn, gan gynnwys dyfeisiadau, dyluniadau, gwaith celf, hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill neu wybodaeth ymarferol, yn eiddo i ni, ac fe fydd gennym ni yn unig yr hawl i benderfynu a wneir cais am unrhyw freinlythyrau, dyluniadau cofrestredig, nodau masnach ac amddiffyniadau eraill ynghylch y canlyniadau hyn.

(ii) Byddwch yn rhoi gwybod i ni'n ddi-oed am bob canlyniad o'r fath ac os ydym yn gofyn i chi, ac ar ein traul ni, byddwch yn gwneud pob gweithred a pheth a gweithredu pob gweithred a dogfen a fo'n angenrheidiol i'n galluogi ni, neu'r sawl a enwebir gennym, i gael breinlythyrau, dyluniadau cofrestredig ac amddiffyniadau eraill ar gyfer canlyniadau o'r fath ym mhob tiriogaeth ac i neilltuo'r cyfryw rai i ni neu'r sawl a enwebir gennym, yn rhad ac am ddim.

(iii) Byddwch yn sicrhau bod yr holl wybodaeth dechnegol (gan gynnwys rhaglenni cyfrifiadurol a gwybodaeth rhaglennu) sy'n codi o'r Contract hwn neu sy'n deillio o'r Contract hwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol heblaw am unrhyw wybodaeth o'r fath sydd yn wybodaeth gyhoeddus, neu sy'n dod yn wybodaeth gyhoeddus, heblaw drwy dorri'r Contract hwn.

21. **TRAMGWYDDO HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

(i) Ac eithrio Nwyddau a wneir yn unol â'n Manyleb, rydych yn gwarantu na fydd y Nwyddau na'r Gwasanaethau, na'r hyn a wnawn drwy eu defnyddio neu eu hailwerthu, yn tramgwyddo unrhyw batent, dyluniad cofrestredig, nod masnach, hawlfraint neu hawl eiddo deallusol sydd gan drydydd parti (yr hawliau) a byddwch yn ymrwymo i'n hindemnio yn erbyn pob gweithred, hawliad, archeb, cost, ffi a thraul sy'n deillio o unrhyw achos o dramgwyddo unrhyw hawliau o'r fath neu unrhyw dramgwyddo honedig o'r fath.

(ii) Os gwneir unrhyw honiad bod unrhyw hawliau wedi'u tramgwyddo ar unrhyw adeg ynghylch y Nwyddau neu'r Gwasanaethau neu os, yn eich barn resymol, ei bod hi'n debygol bod hynny'n mynd i ddigwydd, fe gewch ar eich traul eich hun addasu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau, neu ddarparu rhai newydd, heb fod hynny'n amharu ar y perfformiad cyffredinol. Ar yr un pryd byddwch yn gwneud iawn am unrhyw golled i ni o ran defnyddio'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn ystod y fath addasu neu tra bydd rhai newydd yn cael eu darparu.

22. **DYRANNU AC ISOSOD**

(i) Mae ein Harcheb Brynu yn bersonol i chi ac ni fyddwch yn dyrannu na throsglwyddo, nac yn honni'ch bod yn dyrannu na throsglwyddo i unrhyw berson arall unrhyw hawliau neu rwymedigaethau o dan y Contract hwn.

(ii) Ni fyddwch yn isosod nac isgontractio unrhyw ran o'r Contract heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw, na fyddwn yn ei wrthod yn afresymol. Ni fydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol i isgontractau am ddeunyddiau ar gyfer mân fanylion nac am unrhyw ran y mae ei gwneuthurwr wedi'i enwi yn y Contract. Byddwch yn atebol am yr holl Nwyddau a gyflenwyd a/neu'r holl Wasanaethau a wneir gan eich isgontractwyr o dan y Contract hwn.

23. **MATERION Y TU HWNT I REOLAETH**

Os caiff y naill barti neu'r llall ei atal rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y parti hwnnw (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw fath o ymyrraeth gan y llywodraeth, streiciau a gweithredu cloi allan, neu gyfarpar yn torri), bydd y gwaith cyflawni yn cael ei atal dros dro ac os na ellir ei gwblhau o fewn amser rhesymol ar ôl y dyddiad dyledus fel y nodir yn yr Archeb Brynu neu, pan nad oes dyddiad dyledus, o fewn amser rhesymol, gall y Contract gael ei ganslo gan y parti nad yw'n ddarostyngedig i'r amgylchiadau hynny. Byddwn yn talu i chi y cyfryw swm a fo'n deg a rhesymol o dan holl amgylchiadau'r achos o ran y Nwyddau a gyflenwyd neu'r Gwasanaethau a gyflawnwyd gennych o dan yr Archeb Brynu cyn canslo ond dim ond o ran y Nwyddau a'r Gwasanaethau yr ydym wedi derbyn budd llawn ohonynt yn unol â'r bwriad gwreiddiol yn y Contract, a lle yn ein barn resymol nid oes modd defnyddio Nwyddau a/neu Wasanaethau o ganlyniad i ganslo, bydd gennym hawl i gael ad-daliad am unrhyw Nwyddau a Gwasanaethau na ellir eu defnyddio.

24. **ANRHEGION LLWGR**

Mewn cysylltiad â hyn neu unrhyw Gontract arall rhyngom ni fyddwch yn rhoi, darparu, na chynnig i'n cyflogeion nac i'n hasiantau unrhyw fenthyciad, ffi, gwobr, rhodd nac unrhyw daliad neu fantais o gwbl. Os bydd unrhyw achos o dorri'r Amod hwn, byddwn ni, heb leihau effaith unrhyw hawliau

eraill a fo gennym, yn rhydd o'r adeg honno ymlaen i derfynu'r Contract hwn ac unrhyw Gontract arall ac i gael ad-daliad gennych am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o'r cyfryw derfyniad.

25. CYNLLUN Y GYMRAEG

(i) Byddwch yn cydymffurfio'n llawn â gofynion safonau'r iaith Gymraeg a ddyroddwyd i Brifysgol Aberystwyth (Hysbysiad Cydymffurfio – Adran 44, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Os yw darpariaeth y Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn cynnwys elfen Gymraeg, dylech ofyn am gymorth a chyngor y Brifysgol gyda phob tasg gyfieithu er mwyn sicrhau darpariaeth gyson a safonol.

(ii) Pan fo'r Contract hwn ar gael mewn fersiynau Saesneg a Chymraeg os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y fersiynau hynny, y Saesneg fydd drechaf.

(iii) Mae copi o safonau'r Gymraeg ar gael o https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/ neu cysylltwch â canolfangymraeg@aber.ac.uk.

26. CYSYLLTIADAU HIL

(i) Rydych yn cytuno i gydymffurfio â'n polisïau a'n gweithdrefnau i atal gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, crefydd a chred.

(ii) Yn unol â'n cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth cysylltiadau hil i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hil, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i chi ac unrhyw isgontractwyr gydymffurfio â'r Amod hwn.

(iii) Rydych yn gwarantu bod eich arferion a'ch gweithdrefnau eich hun yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth i atal gwahaniaethu anghyfreithlon a bod eich cyflogeion wedi'u hyfforddi'n llawn ar faterion sy'n ymwneud ag atal gwahaniaethu anghyfreithlon.

(iv) Byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani ynghylch eich cydymffurfiaeth â deddfwriaeth wrth-wahaniaethu a byddwch yn cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad gennym ni neu gan gorff sydd â'r grym i gynnal ymchwiliadau o'r fath o dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

(v) Pan fo unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal, neu os bydd achos yn cael ei ddwyn sy'n berthnasol i'r Amod hwn sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw weithred neu anwaith gennych chi, eich asiantau neu'ch isgontractwyr a lle mae canfyddiad yn eich erbyn mewn unrhyw ymchwiliad neu achos o'r fath, byddwch yn ein hindemnio ni o ran yr holl gostau, taliadau a threuliau (gan gynnwys treuliau cyfreithiol a gweinyddol) a ysgwyddwyd gennym yn ystod neu mewn cysylltiad ag unrhyw ymchwiliad neu achos o'r fath ac yn ein hindemnio ymhellach am unrhyw iawndal, digolledion, costau neu ddyfarniad arall y bo gorchymyn neu ofyniad i ni eu talu i drydydd parti ac eithrio'r rhai sy'n codi o ganlyniad i achos lle rydym ni wedi torri'r Amod hwn.

27. HAWLILDIO

Os na orfodir unrhyw ddarpariaeth o'r Contract ar unrhyw adeg, ni fydd hynny'n effeithio ar yr hawl yn ddiweddarach i'w gwneud yn ofynnol i'r Contract gael ei gyflawni'n llawn, ac ni fydd hepgor camau mewn achos lle y torrwyd unrhyw ddarpariaeth gael ei gymryd na'i ddehongli i fod yn hawlildio am unrhyw achos wedyn lle y torrir y ddarpariaeth honno neu unrhyw ddarpariaeth arall, ac ni fydd yn hawlildio'r ddarpariaeth honno nac unrhyw ddarpariaeth arall.

28. **DILYSRWYDD DARPARIAETHAU**

Os bydd unrhyw awdurdod cymwys yn barnu bod unrhyw ddarpariaeth o'r Amodau hyn yn annilys neu'n anorfodadwy, yn ei chrynswth neu'n rhannol, ni fydd hynny'n effeithio ar ddilysrwydd darpariaethau eraill yr Amodau hyn a gweddill y ddarpariaeth dan sylw.

29. **HYSBYSIADAU**

Bydd yr holl hysbysiadau a gohebiaeth y mae'n ofynnol i ni eu hanfon atoch yn y Contract hwn yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy ffacsimili, post dosbarth cyntaf neu ebost (post electronig) i'ch swyddfa gofrestredig neu'ch prif swyddfa ac os byddant yn cael eu hanfon gennych chi atom ni fe'u hanfonir at ein rheolwr prynu a bernir eu bod wedi cyrraedd y parti y cyfeiriwyd ato ar y diwrnod busnes nesaf ar ôl y dyddiad trosglwyddo neu bostio.

30. **DIWYGIO**

Ni fydd unrhyw ychwanegiad, newid nac amnewid yn yr Amodau hyn yn ein rhwymo nac yn ffurfio rhan o'r Contract oni bai a hyd nes y bydd yn cael ei dderbyn gennym yn ysgrifenedig.

31. CYFRINACHEDD

(i) Bydd pob parti:-

(a) yn trin yr holl Wybodaeth Gyfrinachol sy'n perthyn i'r parti arall yn gyfrinachol a'i diogelu yn unol â hynny; ac

(b) yn peidio â datgelu i neb unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i'r parti arall heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall hwnnw, ac eithrio i'r cyfryw bersonau ac i'r fath raddau fel y bo'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Contract hwn, ond dim ond lle y mae'r cyfryw bersonau yn ddarostyngedig i ymrwymiad i gyfrinachedd, neu wedi ymroi i ymrwymiad i gyfrinachedd, ar delerau heb fod dim llai llym na'r rhai a osodir yn yr amod 31 hwn a hynny cyn i'r gyfryw Wybodaeth Gyfrinachol gael ei datgelu iddynt neu le y mae datgelu wedi'i ganiatáu yn ddatganedig fel arall drwy ddarpariaethau'r Contract.

(ii) Ni fydd darpariaethau Amod 31 (i) yn gymwys i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a dderbynnir gan y naill barti oddi wrth y llall:-

(a) sydd yn gyhoeddus neu'n dod yn gyhoeddus (heblaw drwy dorri'r Amod 31 hwn);

(b) a oedd ym meddiant y parti sy'n derbyn, heb gyfyngiad o ran ei datgelu, cyn ei derbyn oddi wrth y parti sy'n datgelu;

(c) a dderbynnir oddi wrth drydydd parti sydd wedi'i chael yn gyfreithlon ac sydd heb fod o dan unrhyw rwymedigaeth sy'n cyfyngu ar ei datgelu;

(d) sy'n cael ei datblygu'n annibynnol heb gael gafael ar y Wybodaeth Gyfrinachol; neu

(e) os oes gofyniad i'w datgelu yn unol â rhwymedigaeth statudol, gyfreithiol neu reoleiddiol a roddir ar y parti sy'n gwneud y datgeliad, gan gynnwys unrhyw Gais am Wybodaeth.

32. RHYDDID GWYBODAETH

(i) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Codau Ymarfer a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

(ii) Yn ôl ein disgresiwn, byddwn yn cael rhoi gwybod i chi fod Cais am Wybodaeth ynghylch y Contract hwn wedi'i gyflwyno.

(iii) Byddwch yn ein cynorthwyo ar eich cost chi i'n galluogi i gydymffurfio â'r gofynion datgelu Gwybodaeth ynghylch Gwybodaeth a gedwir gennym ac sy'n ymwneud â chi neu'r Contract hwn a hynny o fewn yr amser ar gyfer cydymffurfio a nodir yn adran 10 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

(iv) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddyfarniad blaenorol gan y Comisiynydd Gwybodaeth a/neu'r Tribiwnlys Gwybodaeth a/neu'r llysoedd, (a byddwn yn eich hysbysu am y cyfryw ddyfarniad) byddwn yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn ni'n hunain a yw:-

(a) y wybodaeth sy'n ymwneud â'r Contract hwn a/neu'r Wybodaeth Gyfrinachol wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Cod Ymarfer a/neu'r Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth;

(b) y Wybodaeth a/neu'r Wybodaeth Gyfrinachol i'w datgelu mewn ymateb i Gais am Wybodaeth.

(v) Rydych chi'n cydnabod nad ydych yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni fyddwch yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth ynghylch gwybodaeth sy'n ymwneud â ni neu â'r Contract hwn oni bai'ch bod wedi'ch awdurdodi'n ddatganedig gennym ni i wneud hynny

(vi) Rydych yn cydnabod, gan weithredu yn unol â'r Codau Ymarfer, ei bod yn bosib y bydd yn rhaid i ni o dan y Codau Ymarfer, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ddatgelu Gwybodaeth:-

(a) heb ymgynghori â chi, neu

(b) ar ôl ymgynghori â chi ac wedi ystyried eich barn, ond heb fod unrhyw rwymedigaeth arnom i gydymffurfio â'r safbwyntiau hynny.

33. <u>CYFRAITH</u>

Bydd y contract hwn yn cael ei lywodraethu gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r partïon drwy hyn yn ymddarostwng i awdurdodaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn unig.